# y dinesydd

Chwefror 2011 Rhif 354 | Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch | Pris: 80 ceiniog


## Llythyr agored at ddarllenwyr Y Dinesydd

Annwyl ddarllenwyr,

Ar 3 Mawrth 2011, bydd pobl Cymru yn pleidleisio mewn refferendwm ar bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae gan y Cynulliad y pwerau i wneud penderfyniadau dros nifer o feysydd penodol - y rhan fwyaf sy'n effeithio ar ein bywydau bob dydd megis iechyd, addysg a'r amgylchedd. Gall Llywodraeth y Cynulliad, gyda chefnogaeth y Cynulliad, ddewis sut i wario arian, ond ar hyn o bryd, ni all benderfynu ei hun newid y gyfraith yn y meysydd hyn - mae'n gorfod cael caniatâd gan Weinidogion ac Aelodau Seneddol yn San Steffan.

Dair blynedd yn ôl, roedd ACau eisiau ei gwneud yn haws i deuluoedd yng Nghymru gael cartref fforddiadwy. Cafodd cynigion tebyg a ddygwyd ymlaen yn yr Alban a Gogledd Iwerddon eu pasio yn sydyn, ond rhaid oedd i ni gael caniatâd gweision sifil, a mynd trwy broses hirfaith yn Nhŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin cyn gallu gweithredu ewyllys ein Cynulliad etholedig.

Mae cyfreithiau ar gyflwyno taenellwyr dŵr mewn cartrefi newydd, diwygio ein system iechyd meddwl a'i gwneud yn haws rhoi organau, hefyd wedi eu dal i fyny gan Lundain. Ein barn ni yw y dylai cyfreithiau sy'n effeithio ar Gymru yn unig gael eu gwneud yng Nghymru. Byddai pleidlais 'Na' yn ei gwneud yn anos fyth gwneud pethau yn gynt, gan y bydd yn rhoi esgus i Weinidogion a gweision sifil yn *Whitehall* arafu'r broses fwy fyth.

Dros y ddegawd ddiwethaf, mae'r Cynulliad yn raddol wedi tyfu mewn maint a hyder. Bydd pleidlais Ie yn helpu i gymryd Cymru ymlaen, gan roi llais cryfach i Gymru. Bydd yn rhoi i'r bobl yr ydym yn eu hethol yr arfau i wneud y gwaith, a darparu gwell gwasanaethau i'n cymunedau. Os am wirfoddoli gyda'r ymgyrchu yn eich milltir sgwâr, cysyllter â: post@iedrosgymru.com neu ysgrifennwch at Ie Dros Gymru, c/o Unsain Cymru, Tŷ Unsain, Stryd Custom House, Caerdydd CF10 1AP.

Yr Eiddoch yn Gywir,

Roger Lewis,
Cadeirydd, Ie Dros Gymru

Ie dros Gymru
Yes for Wales

## Gorchest yr Amgueddfa

Mae cyfle arbennig gan ymwelwyr ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru i weld arddangosfa unigryw o gerfiadau carreg hynafol o Tsieina.

Mae llethrau serth Safle Treftadaeth y Byd yn Dazu ger Chongqing yn cynnwys cyfres eithriadol o gerfiadau carreg sy'n dyddio o ganol y 7fed ganrif ac a ddatblygwyd rhwng y 9fed ganrif a'r 13eg ganrif. Mae'r arddangosfa'n cynnwys enghreifftiau ardderchog sydd wedi disgyn o'u safle gwreiddiol, ynghyd â chopïau manwl gywir o rai o'r cerfluniau pwysicaf sydd yn dal yn y graig, a delweddau mawr dramatig i geisio efelychu'r profiad o ymweld â'r lleoliadau ysblennydd yma.

"Cerfiadau carreg Dazu yw rhai o drysorau diwylliannol mwyaf Tsieina o gyfnod disglair yn hanes celf Tsieina," meddai David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru. "Mae'n anrhydedd i'r Amgueddfa, ac i Gymru, gael cynnig cartref dros dro i'r cerfiadau hyn - y tro cyntaf erioed iddynt gael ymadael â Tsieina.

Mae'r arddangosfa ar agor tan Ebrill 3ydd, ac mae mynediad am ddim.

### Cawl Cennyn a Chaws Cymreig



*Trowch i dudalen 14 am y cyntaf yng nghyfres rysteitiau Nerys Howell.*

# Y Dinesydd

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Sian Parry-Jones

**Golygyddion y rhifyn nesaf:**
Gwilym & Eirian Dafydd

**Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Mawrth 2011 erbyn 20 Chwefror at:**
Hengoed, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 7EJ
eirian.dafydd@ntlworld.com
029 20657108

**MANYLION CYSYLLTU**
**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
JamesEW@caerdydd.ac.uk
029-2062-8754)

**Hysbysebion**
Ceri Morgan, 24 Cwm Gwynlais Tongwynlais, Caerdydd CF157HU
ceri33@btopenworld.com
029 20813812

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones, 22 Blaen-y-Coed, Radur, Caerdydd. CF15 8RL 07985 174997

**Cyhoeddir Y Dinesydd gan**
Bwyllgor *Y Dinesydd*

Fe'i cysodir gan Siriol Haf Griffiths a'i argraffu gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

Cydnabyddir cefnogaeth
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk


# Llythyrau

Annwyl Olygydd,

Yn rhifyn Rhagfyr 2010 Y Dinesydd ceir dau nodyn yn sôn am ddau gyda chysylltiadau â Chaerdydd, sef, Gwyneth Lewis (bardd) ac Emyr Roberts (gwas sifil yn y Cynulliad). Mae'r ddau yn llwyr haeddu'r llongyfarchiadau a dymuniadau da a estynnir iddynt, gyda gwybodaeth yn nodi'r ysgolion uwchradd (Rhydfelen ac Amlwch) a'r prifysgolion (Rhydychen ac Aberystwyth) lle buont yn fyfyrwyr. Wrth ddarllen ac edmygu ni allwn i ond meddwl cymaint mwy llewyrchus buasai eu gyrfaoedd petaent ond wedi derbyn addysg gynradd hefyd. Wedi pendroni mwy am yr hynodrwydd hwn, ystyriais y posibilrwydd eu bod wedi mynychu ysgolion cynradd, ond, am ryw reswm, nid oedd cyfeiriad atynt. Nam teipio mae'n siŵr.

Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach, a minnau'n darllen yr adolygiad o hunangofiant Eirwyn George yn rhifyn cyfredol Barddas, gwelais y frawddeg 'er iddo dderbyn addysg a diwylliant yng Ngholeg Harlech a Choleg y Brifysgol, Aberystwyth ..........'. Wel dyma syndod, un arall heb gael mantais addysg gynradd (ac uwchradd?). Does posib bod nam teipio yma hefyd. Gyda hynny codais y campwaith Welsh Women's Poetry 1460 - 2001 a chael sefyllfa waeth, oherwydd dim ond addysg brifysgol a gydnabyddir. Mewn casgliadau tebyg mae'n gyffredin darllen bod y mwyafrif mawr wedi cael addysg uwchradd a choleg, yn ôl enwau penodol, ond dim am ysgol gynradd.

Ar ben hyn, nodir yn aml fod y bardd wedi bod yn 'ddisgybl' mewn rhyw ysgol ond wedyn 'addysgwyd' mewn prifysgol. Sylwais fod yr un arfer parthed sêr y campau. Clir yw'r cof sy gennyf o glywed Mair Robins yn gwaeddi, "Beth am Ysgol Gynradd Melin Gruffydd?" wedi iddi ddarllen sylw mewn rhyw bapur am Jamie Robinson, chwareuwr rygbi rhyngwladol ac yn 'gyn-ddisgybl Ysgol Gyfun Glantaf'. Felly, cyn i'm gwaed gynhesu hyd at oeri, dyma grynhoi.

Gwae chwi olygyddion, awduron a chyhoeddwyr! Aethoch yn anystyriol, anwybodus, andwyog, croenwydn, clustfyddar, cul, diog, dilornus, difater, dirmygus, hunandybus, maleisus, nawddoglyd, unllygeidiog.

Yr eiddoch yn filain, dialgar, gwaedlyd, ysglyfaethus, gelyniaethus, blin, dig - ac eto yn obeithiol y clywir o'ch plith 'euog wyf' a gweld arwyddion eich bod yn awr yn gweld lle roeddech gynt yn ddall.

Neville Evans

O.N. Cefais innau fy addysg gynradd yn Ysgol Babanod ac Ysgol Iau Gendros, Abertawe. Mae'n hyfrydwch datgan yma fy niolch i Miss Lewis, Miss Thomas, Miss Eustace, Miss Lloyd, Mr Lee, Miss Lloyd (arall) a Mr Williams.

*Sylw gan Olygydd y Mis [Ysgol Bryntaf]: Nodwyd!*

* * *

Annwyl Olygydd,

S4C a'r Dyfodol

Dros yr wythnosau nesaf bydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn cynnal cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus i drafod dyfodol S4C.

Mae dyfodol ein hunig sianel deledu Cymraeg yn y fantol. Mae'n wynebu toriadau o dros 40% i'w chyllid mewn termau real; cael ei thraflyncu gan y BBC; a bod grymoedd yn nwylo Gweinidogion San Steffan i gael gwared â hi yn llwyr. Mae'r llywodraeth yn

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, 54 - 60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
**CABAN**, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
**PETHAU BYCHAIN**, 20 Stryd Bute, Bae Caerdydd, CF10 5BZ
**DERI STORES**, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
**VICTORIA FEARN GALLERY**, 6b, Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
**HALLS**, 44, Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
**HALCYON DAZE**, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, 9a Windsor Road, Penarth. CF64 1JB
**FOOD FOR THOUGHT**, 12 High Street, Y Barri. CF62 7EA
**COFFEE LOUNGE**, 38 Station Road, Llanisien

arbed 94% o'r arian oedden nhw'n arfer talu i'r sianel, toriad sydd yn gwbl annheg.

Rydym ni fel ymgyrchwyr yn dweud fod rhaid gwarantu annibyniaeth rheolaeth ac annibyniaeth olygyddol lwyr i S4C heb ymyrraeth y BBC na'r Llywodraeth; a bod fformiwla gyllido annibynnol ar gyfer y sianel Gymraeg, ar sail chwyddiant ac mewn statud, yn hanfodol er mwyn sicrhau arian teg i greu rhaglenni Cymraeg o safon. Rydym yn cydnabod y gallai S4C berfformio yn well - dyna pam rydym yn ymgyrchu dros S4C newydd, ond ni fydd hynny'n bosib o dan gynlluniau'r Llywodraeth yn Llundain.

Ymhellach, credwn yn gryf mai ar ysgwyddau pobl Cymru y disgyn y cyfrifoldeb am ddyfodol S4C. Felly, y Cynulliad Cenedlaethol yn hytrach na'r Senedd yn Llundain a'r Adran Ddiwylliant dan ofal Mr Jeremy Hunt ddylai ddelio â darlledu yn ein gwlad.

Dros y blynyddoedd bu S4C yn ben conglfaen i'r diwylliant Cymraeg a gwahoddwn ni chi yn daer i'r cyfarfodydd cyhoeddus i drafod ffyrdd o sicrhau dyfodol i'r Sianel.

Penderfynwyd ar y cynlluniau hyn gan Lywodraeth San Steffan heb ymgynghori â neb yng Nghymru. Rydym yn erfyn felly ar bobl i ddod i'r cyfarfodydd i gyfrannu i'r drafodaeth.

Yn gywir,

Bethan Williams,

Cadeirydd
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

## CYMDEITHAS HANES Y BLAID

Crëwyd hanes gan aelodau'r Blaid yn ddiweddar pan benderfynwyd sefydlu Cymdeithas Hanes Plaid Cymru. Mae gennym fforwm nawr i gofio, dathlu, hybu ac ymchwilio gweithgarwch, etholiadau, ymgyrchoedd a phobl y Blaid. Mae aelodaeth yn agored i bawb sydd â diddordeb yn hanes y Blaid. Cadeirydd y gymdeithas yw Dafydd Williams, cyn-Ysgrifennydd Cyffredinol y Blaid ac awdur *'The Story of Plaid Cymru'*.

Bydd angen eich cefnogaeth ar gyfer y wefan arfaethedig. Byddai'n ddiddorol gwybod am ganghennau cyntaf Caerdydd a'r Fro, ac am ddigwyddiadau yn dathlu ein pobl. Mae modd darganfod llawer o'n hanes mewn cofnodion a gohebiaeth canghennau ac mewn taflenni ac ati.

Bydd adran 'Cofio' ar y wefan lle gall ffrindiau a pherthnasau dalu teyrnged i gyn-aelodau. Y tri cyntaf i gael eu coffau yn y dull hwn fydd Terry O'Neill, Glyn James a Dr.Ceinwen Thomas.

Cynhelir cyfarfod ar ddydd Gwener 25ain Mawrth, yng Nghanolfan Y Mileniwm am 4.30pm yn ystod Cynhadledd y Gwanwyn Plaid Cymru. D Hywel Davies, awdur 'The Welsh Nationalist Party 1925-1945- A Call to Nationhood', fydd y siaradwr gwadd.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Alan Jobbins, 47 Wingfield Rd, Caerdydd CF14 1NJ neu asjobbins@btinternet.com

*Llun tudalen 4*

## ARCHEBU'R DINESYDD AM Y FLWYDDYN

Os ydych am gasglu'ch copi o'r Dinesydd mewn man cyfleus, fel capel neu drwy gymdeithas, neu dderbyn eich copi drwy'r post, mae ffurflen archebu yn y rhifyn yma.

Os ydych chi eisoes wedi creu archeb banc, a ddim eisiau newid y trefniadau presennol, does dim angen gwneud dim, ond os ydych am archebu o'r newydd, neu newid y trefniadau, cofiwch lenwi'r ffurflen a'i dychwelyd atom cyn gynted â phosib. Nodwch mai un tâl blynyddol fydd yn cael ei dalu o'ch cyfrif.

Os ydych chi wedi archebu'n barod, a ddim eisiau newid y trefniadau, rhowch y ffurflen i rywun arall fyddai'n falch o'i derbyn!

Oherwydd y diffyg galw ym Mhontypridd, Llanilltud Fawr, a'r Bontfaen yn anffodus ni fydd y papur ar werth yno ar ôl y rhifyn hwn. Wrth gwrs mae croeso i unrhyw un yn y Fro danysgrifio i'r Dinesydd a'i dderbyn drwy'r post.

**CATRIN FINCH**

**DOMINIC GRAHAM DANCERS**

**CALAN**

PERREE BANE

**RUSTY SHACKLE**

MEIBION Y MACHLUD

**KANTREF**

DAWNSWYR MÔN

**CITY OF NEWCASTLE PIPE BAND**

ONE STRING LOOSE

**KEMYSK**

a llawer iawn mwy o'r gwledydd Celtaidd

4 - 6 MAWRTH 2011

**GŴYL RYNG GELTAIDD**

**PORTHCAWL**

www.cwlwmceltaidd.com

029 20813812

## DIOLCH PENRI

Ar ôl blynyddoedd wrth y gwaith o gysodi'r Dinesydd o fis i fis, mae Penri Williams wedi rhoi'r gorau i'r gorchwyl.

Bellach fe'i cysodir gan Siriol Haf Griffiths, a dymunir yn dda iddi, gan ddiolch o galon i Penri am ei ffyddlondeb a'i ddiwydrwydd dros y blynyddoedd.

## DINESYDD RHAGFYR/IONAWR

Ymddiheuriadau i nifer o ddarllenwyr Y Dinesydd Rhagfyr/Ionawr a welodd y papur yn hir yn cyrraedd, ond bu'r tywydd yn ein herbyn yn anffodus.

Colofnydd y Mis yn y rhifyn diwetha' oedd Yr Athro Meic Stephens, yr Eglwys Newydd.

Ymddiheurwn am hepgor ei enw.



**Ysgol Melin Gruffydd**



**Ysgol Plasmawr**

Disgyblion Plasmawr ar eu diwrnod olaf o'r alldaith yn Eryri 2010. Yn Neuadd y ddinas mis diwethaf pleser oedd gweld dros 70 o ddisgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr yn cael eu cydnabod am eu llwyddiant ardderchog wrth gyflawni gwobr Dug Caeredin. Braf yw gweld bod y wobr yn mynd o nerth i nerth ac yn tyfu'n flynyddol. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd.



**Cylch Meithrin Treganna**



**Merched y Wawr Bro Radur**



**Aelodau Cymdeithas Hanes y Blaid**



**Ysgol y Wern**

# COFIO OWEN BEST

Cyfarchiad Hefin Griffiths
i fyfyrwyr Ysgol Glantaf

Tristwch mawr, ac ergyd drom i ni 'gyd oedd clywed am farwolaeth sydyn, annisgwyl Owen Best, gŵr ifanc fu'n gyd-fyfyriwr, yn ffrind ac yn ddisgybl yn yr ysgol hon tan ryw chwe mis yn ôl. Peth anodd iawn yw gwybod beth i'w feddwl dan y fath amgylchiadau, a greddf sydd ar hyn o bryd yn rheoli'n teimladau; o dristwch, i syndod, i annhegwch, o dosturi a chydymdeimlad, i anghrediniaeth.



Un peth sy'n sicr; y mae digwyddiad fel hyn yn peri i ni ddwyn i gof ein holl brofiadau o'n hymwneud ag Owen ar hyd y blynyddoedd; fel cyd-fyfyriwr a disgybl, aelod o garfan a thîm rygbi, rhan o wasanaeth cynghori "Seren", cyd-chwaraewr criced, ond yn anad dim, fel ffrind.

Deuthum i adnabod Owen yn dda ryw chwe blynedd yn ôl, ar drothwy ei ail flwyddyn yn yr ysgol; a'i weld yn tyfu mewn hyder ac aeddfedrwydd mewn carfan glos iawn o bobl ifanc a fu, ac sy'n dal i fod yn griw mawr iawn o ffrindiau agos. Mae ein meddyliau gyda nhw hefyd yn ystod y cyfnod anodd hwn wrth iddyn nhw geisio dod i delerau â cholled fydd yn fwlch mawr yn eu bywydau.

Y mae pawb a gafodd y pleser o fod yng nghwmni Owen yn gallu tystio i'w holl rinweddau. Yn wir, prin y gall unrhyw un sôn amdano mewn golau negyddol. Mae ei adroddiadau ysgol diweddaraf yn crisialu i'r dim yr hyn yr ydym yn ei wybod, ac yn ei gofio amdano. Person hyfryd, hawddgar, doeth, sensitif, brwdfrydig, hyderus, penderfynol, hapus, cwrtais, aeddfed. Roedd ei anwyldeb yn hysbys i ni 'gyd, a'i ystyriaeth o bobl eraill yn esiampl i bawb. Gŵr ifanc, diymhongar yng ngwir ystyr y gair. Byddai rhai staff yn cofio ei ddireidi diniwed, a'i awydd i herio safbwyntiau a chysyniadau yn y dosbarth, ond yn gwneud hynny â gwên lydan ar ei wyneb.

Bu ei gyfraniad i fywyd yr ysgol yn werthfawr, yn ei ffordd dawel, ddiffwdan; cynrychiolaeth mewn timoedd, arddangosfa o'i natur ystyriol a sensitif yng ngwasanaeth cynghori "Seren", cefnogi a chymryd rhan mewn gwyliau rhyng-lysol, ei ymwneud â disgyblion iau yr ysgol ar deithiau Llangrannog a gweithgareddau pontio blwyddyn 7.

Gallai greu argraff ffafriol iawn ohono'i hun mewn un cyfarfyddiad. Mewn cwta chwarter awr o ffug gyfweliad Prifysgol fe nodwyd y sylwadau canlynol: cyfathrebwr da, ymagwedd hyderus, ystyriol, corff iaith a phersonoliaeth bositif iawn; brwdfrydig, hoffus a charedig.

Ond, fel y soniwyd eisoes, mae nifer fawr o bobl ifanc yn colli cyfaill agos, ffyddlon a theyrngar na fyddai'n troi ei gefn ar unrhywun. Daeth i fod yn aelod poblogaidd, annatod o'i flwyddyn a rannodd hiwmor gyda'i gyfoedion wrth i bawb dynnu coes o bryd i'w gilydd. Cefais argraff ohono fel bachgen cwbl ddiragfarn, na fyddai'n chwilio am fai yn neb.

Peth priodol i ni ei wneud yn awr yw ymdawelu er mwyn i ni droi ein meddyliau at ein hatgofion o Owen, gan ystyried hefyd cyfeillion a theulu agos. Fe gofiwn wrth gwrs am frodyr a rhieni Owen yn eu profedigaeth ddwys gan obeithio y cân nhw nerth drwy ffydd, neu thrwy gefnogaeth y rhai sy'n agos atynt, i ddod i delerau â'r ergyd syfrdanol sydd wedi eu taro.

Bydd y golled a'r bwlch yn fawr ar ei ôl, a'n bywydau ni oll yn gyfoethocach o gael y fraint o adnabod Owen.

## CYLCH MEITHRIN TREGANNA

Bu plant Cylch Meithrin Treganna yn brysur yn codi arian. Ddiwedd tymor diwethaf cynhaliwyd cyngerdd yn ein neuadd fawr ac roedd mwynhad y plant yn amlwg ar eu hwynebau wrth ganu am y baban Iesu, clychau'r Nadol-ig a Siôn Corn. Llwyddon ni godi £430.30 tuag at y Cylch gyda'r raffl a'r stondinau. Yn ogystal bu'r plant yn codi arian drwy gael eu noddi i neidio ar _gastell bownsio' (£306.90) a chanu carolau yn ein Tesco lleol (£33.11). Diolch o galon i'r rhieni, ffrindiau a theulu a gefnogodd y plant.

Mae'r Cylch Meithrin yn cyfarfod yng Nghanolfan Gymunedol Treganna ar Ffordd Lecwydd. Mae tri aelod o staff parhaol gennym: Kelly yr Arweinydd, Tina y Dirprwy Arweinydd a Clare y Cynorthwyydd. Mae sesiynau i blant 3 oed bob bore'r wythnos o 9.30am - 12pm a'r plant o 2½ - 3 yn y prynhawniau o 12.30pm-3pm. Cynhelir Ti a Fi ar fore Iau rhwng 9.30 ac 11am. Mae croeso cynnes i bawb.

Os am fwy o wybodaeth ffoniwch y Ganolfan ar 20 344 699 neu galwch i'n gweld!

*Llun tudalen 4*

## YSGOL MELIN GRUFFYDD

Bu tymor y Nadolig 2010 yn un prysur iawn i gôr yr ysgol. Ar ddiwedd y tymor buom yn cymryd rhan mewn gweithgareddau di-ri! Aethom ni i'r 'British Legion' yn yr Eglwys Newydd i ddiddanu y 'Friendship Club'. Rydym yn mynd yno bob blwyddyn ac yn ceisio creu naws Nadoligaidd i'r henoed. Ar y 3ydd o Ragfyr, cafon ni ffair yr ysgol. Mwynheon ni berfformio o flaen ein rhieni a'n ffrindiau yn fawr iawn. Buom hefyd yn brysur yn dysgu caneuon ar gyfer cyngerdd carolau BBC Cymru yn Neuadd Dewi Sant ar y cyd gyda phump ysgol arall o Dde Cymru. I orffen y tymor, gwnaeth blynyddoedd 5 a 6 gyngerdd Nadolig ar y thema Nadolig drwy'r Oesoedd. Roedd y côr yn canu caneuon fel rhan o'r perfformiad ac roedd pawb oedd yn gwylio yn dwlu ar ein canu! Am dymor i'r côr!

*Lili Powell a Megan Burt*

## ADDYSG GYMRAEG YN CODI AC YN YMESTYN

Mae pecyn datblygiadau cyntaf yng Nglantaf, sef codi'r Neuadd Chwaraeon, ar fin dod i ben ac mae dechreuad sylweddol wedi'i wneud ar yr ail becyn, yr un mwyaf, sef ail-godi ac ymestyn adain flaen yr ysgol. Bydd golwg Glantaf yn bur wahanol erbyn yr haf a gallwn edrych ymlaen at weld yr adeiladau dros dro yn diflannu o'r caeau chwarae.

Mae'r sir hefyd yn bwrw ati i ymestyn y ddarpariaeth gynradd a hynny lle mae'r angen mwyaf - yn ardaloedd Canton, Pontcanna a Threfynach. Erbyn i'r rhifyn hwn o'r Dinesydd ymddangos ar ei hanner bydd y broses o ymgynghori ar safle a maint ysgol newydd Treganna i gymryd lle'r hen ysgol a Than yr Eos.

Ysgol tair ffrwd fydd hi, yn sefyll drws nesaf i Ysgol Fitzalan yn Heol Sanatorium gyda hawl i ddefnyddio'r meysydd chwarae tu ôl i'r safle. Yn synhwyrol mae'r sir yn bwriadu cadw'r un dalgylch sydd gan y Treganna presennol ond yn ychwanegu ato ardal Parc Fictoria.

Ysgol gorllewin Canton fydd Treganna gydag ychydig o Bontcanna hyd at Severn Road. Bydd Pwll Coch yn gwasanaethu dwyrain Canton, mwyafrif Pontcanna, Glan-yr-afon a Threfynach gan gymryd canol y ddinas a Butetown hyd at ganol Rhodfa Lloyd George.

Nid yw'r sir eto wedi dechrau ar ymgynghori ar y cynllun i ymestyn Pwll Coch ond mae'n anhepgor y byddant yn gwneud hyn cyn gynted ag y byddant wedi cyfrif y ceisiadau am le eleni yn Nhreganna a Phwll Coch, ceisiadau y maent yn disgwyl i fod yn uwch na'r 120 lle sy ar gael.

Felly gellir disgwyl ymgynghori buan ar ymestyn Pwll Coch i 3 ffrwd eleni am na fydd ysgol newydd Treganna ar gael tan Medi 2013, blwyddyn ynghynt nag yn y cyhoeddiad cyntaf y llynedd.

Mae'r ceisiadau am le eleni wedi cyrraedd y sir erbyn hyn. Mae'r swyddogion hefyd wedi derbyn yr ymatebion i arolwg y galw am addysg Gymraeg sy wedi digwydd am y tro cyntaf yng Nghaerdydd ac mae'r ymateb tua 30% nifer yr holiaduron a ddosbarthwyd, digon i fod yn sylfaen i adroddiad yn darogan a oes galw cudd am le yn yr ysgolion Cymraeg.

*Michael Jones*

## YMGYNGHORIAD AR DDARPARIAETH ADDYSG GYNRADD YN NHREGANNA

Mae ymgynghoriad cyhoeddus wedi dechrau ar gynnig Cyngor Caerdydd o ran darpariaeth addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn Nhreganna.

Ar ôl i Brif Weinidog Cymru wrthod y cynigion cynharach, mae'r Cyngor bellach wedi cyflwyno cynnig arall. Bydd yr ymgynghoriad yn digwydd tan 28 Chwefror 2011 ar gyfer y cynnig canlynol:

* Trosglwyddo Ysgol Treganna i'r safle newydd sbon oddi ar Sanatorium Road rhwng Meddygfa Lansdowne a safle'r hen felin bapur (Arjo Wiggins), fel ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg sy'n derbyn 3 Dosbarth y Flwyddyn gyda meithrinfa.

* Cau Ysgol Tan yr Eos (sydd wedi'i lleoli yn Ysgol Gynradd Parc Ninian) gyda'r plant yn symud i'r Ysgol Treganna fwy unwaith bydd yr ysgol ar y safle newydd.

* Diwygio dalgylchoedd Ysgol Gymraeg Treganna ac Ysgol Gymraeg Pwll Coch.

Mae arddangosfeydd sy'n egluro'r cynnig yn fanylach i'w gweld yn Llyfrgell Treganna neu i gael rhagor o wybodaeth a'r newyddion diweddaraf ewch i www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolion.

Fel arall gallwch danysgrifio i borthiant RSS y Cyngor i gael yr wybodaeth ddiweddaraf, gallwch hefyd anfon eich sylwadau gan ddefnyddio'r ffurflen adborth ar-lein.


BAY Resourcing

Asiantaeth Cyflenwi Athrawon



Os ydych yn Athro Cynradd neu Uwchradd, Cynorthwydd Dysgu neu Ysgrifennydd Ysgol gallwn gynnig:

**Gwaith Rheolaidd**
•
**Amserlenni a dyddiadur ar-lein**
•
**Cyfraddau dyddiol cystadleuol**
•
**Lwfans Teithio a Chinio**

Gwe: www.bayresourcing.com Ebost: info@bayresourcing.com
Ffôn: 02920 494560
Cyfeiriad: 127 Bute St, Bae Caerdydd, CF10 5LE


## LLWYDDIANT TOILED YR AES

Mae toiled tanddaearol Yr Aes yng nghanol dinas Caerdydd wedi derbyn gwobr pum seren yng Ngwobrau Cenedlaethol 'Loo' 2010. Cafodd y toiledau eu henwebu o dan gategori toiledau cyhoeddus dan ofal llawn amser, ac fe gafodd y cyfleuster hanesyddol wobr Gofalwr y Flwyddyn hefyd, am y staff sy'n edrych ar ôl yr adeilad.

Mae Toiledau Cyhoeddus Yr Aes, sef y cyfleusterau cyhoeddus cyntaf i'w hadeiladu yng Nghaerdydd yn 1898, yn Adeilad Rhestredig Gradd 2. Yn sgil nawdd oddi wrth Cadw Cymru'n Daclus cafodd yr adeilad hanesyddol hwn ei adnewyddu yn yr 'Arddull Fictoraidd' ac i'r ysblander a fu yn 2009.

Er mwyn bodloni meini prawf y gystadleuaeth, cafodd toiled Yr Aes ymweliad annisgwyl gan arolygwr a'i feirniadu ar nifer o asesiadau gan gynnwys arwyddion ac addurn, darnau gosod a gosodiadau, a safon gyffredinol y glendid a'r rheoli. Wrth sgorio cant y cant, enillodd y cyfleuster radd bum seren.

## LE GALLOIS YN CAU

Ar ôl bod ar agor am dair blynedd ar ddeg, mae'r bwyty enwog Le Gallois, ddaeth yn boblogaidd hefo llawer o Gymry Cymraeg, yn cau. Yn ystod ei oes derbyniodd Le Gallois sawl gwobr am safon ei fwyd a gwelir eisiau bwyty o'r safon hwn yn ein prifddinas.

## GWENLLIAN YN GADAEL CAERDYDD

Mae Gwenllian Lansdown, Prif Weithredwr Plaid Cymru a Chynghorydd yn ardal Glan yr Afon yn rhoi'r gorau i'r swydd gan y bydd yn priodi ac yn symud i fyw yn Sir Drefaldwyn yn yr haf. Diolchwn a dymunwn yn dda iddi .

## SWYDD NEWYDD

Llongyfarchiadau i Richard Houdmont, Rhiwbeina, ond gynt o Swydd Efrog, ar ei benodiad yn Gyfarwyddwr Rhanbarthol Sefydliad Marchnata Siartredig yn Iwerddon. Fe oedd pennaeth cyntaf y Sefydliad yng Nghymru yn 2006.


## AR WERTH


Telyn Salvi 46 tant mewn cyflwr rhagorol.

Un perchennog.

Tel: 01824 702683


## CROESAIR

**Rhif 110**



**Atebion i:**

**22, Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd. CF14 6AN**

**Ar Draws**

1. Cael pleser hynaws wrth wasgaru (6)
4. Brawd mogi yn cywasgu'r tafodog a'u pedoli (4)
6. Dybla myd mewn caledi amgen a thosturi (12)
8. Teimlad y deg namyn un ar ddechrau'r siwrne (4)
9. Torri coed a'u lliwio (4)
10. Awydd yn cefnu mewn awel (3)
12. A yw hwn yn swil? (6)
13. Cywasgu manteisiol ar y glorian (6)
16. Canu fel hyn wrth ffarwelio (3)
18. 'Maent yn dwedyd y ffordd yma
    Nad oes dim mor oer â'r ____' (tradd.) (4)
19. Ffagl yn Lloegr fel tusw o flodau (4)
20. 'Ac yn rhyw ddisgwyl bob yr awr
    Fod tŷ __ __ __' (W.W.) (2, 4, 6)
21. Yn dawel mae'r ddafad fach mewn blinder (4)
22. Dan y siaced mae lle i argraffu'r rhyfedd.

**I Lawr**

1. Mae eiddo Nic yn cael ei newid am beiriant (10)
2. 'Anturiaf ymlaen,
   Trwy ddyfroedd a thân,
   __ __ yng nghwmni 'fy Nuw' (D.D.) (2, 5)
3. Ffeirio dig neu bod yn gytun (6)
4. 'Ti sy'n rhoddi y ___
   Amser hau a chasglu'r grawn' (W.W.) (8)
5. Dihiryn sy'n dipyn o dderyn (5)
7. 'Chwiliwch hi, __ __ __
   Munudau Duw'n mynd a dod (J.L.J) (4, 1, 5)
11. 'O! F'enaid, gwêl addasrwydd
    Y Person __ __' (A.G.) (5, 3)
14. Fel heol wledig efallai mae to Lloegr yn simsan (7)
15. Nifer yn troi i dir teg (6)
17 'Mae'r iachawdwriaeth fel y môr
   Yn ___ fyth i'r lan' (5)

**Atebion Croesair Rhif 109**

**Ar draws:** 1. Gwrymio; 6. Eirias; 7. Oriadur; 9. Gwely; 10. Sisialai; 12. Ond; 13. Cras; 14. Adas; 15. Wyr; 17. Siglenni; 18. Diffyg; 20. Mynedfa; 21. Gwylio; Ryfedder.

**I Lawr:** 1. Groes a gwyd y; 2. Mudiadau; 3. Oernad; 4. Crog; 5. Caregos; 8. Sy'n dod i lawr; 11. Addawn Ef; 13. Creffftwr; 16. Hiwmor; 19. Galw.


## Bwthyn Bryntrillyn

**Ar ochr y dafarn uchaf yng Nghymru.**

**Bethan: 01745550214**

**www.sportsmansarmswales.com**



# YN EISIAU!!

## SIARADWYR CYMRAEG

i ddysgu Cymraeg i Oedolion.

Rhoddir hyfforddiant llawn ac fe'ch telir am eich gwaith.

**Brwdfrydedd sy bwysicaf!**

Cysylltwch am ffurflen gais:-

***Steffan Webb***

Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent

Coleg Gwent, Campws Pont-y-pŵl Heol Blaendare, Pont-y-pŵl, Torfaen.

Neu ffoniwch:

**01495 333735**

steffan.webb@coleggwent.ac.uk

## COLOFNYDD Y MIS
**Alun Owens**

Mae hi'n gyfnod cyffrous i'r iaith Gymraeg a gwleidyddiaeth Cymru. Ym mis Rhagfyr pasiwyd Mesur Iaith yn y Senedd i roi statws swyddogol lawn i'r iaith Gymraeg am y tro cyntaf am dros saith can mlynedd. Ar ben hyn cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghorol ar gyfer Strategaeth Iaith newydd gan Lywodraeth y Cynulliad. Byddwn yn dechrau teimlo effaith y datblygiadau yma dros y misoedd nesaf. Edrychwn ymlaen at refferendwm hir-ddisgwyliedig i drosglwyddo grym-oedd ychwanegol i'r Cynulliad a'r mater bach o etholiad i greu llywod-raeth newydd i Gymru ym mis Mai. Mae'r misoedd nesaf yn argoeli bod yn rhai pwysig i hanes Cymru a'r iaith.

Fel un sy'n byw yng Nghaerdydd gyda son am dwf yn ysgolion Cymraeg y ddinas mae'n hawdd iawn dychmygu bod dyfodol disglair a chwbl ddiogel i'r iaith Gymraeg. Ffwlbri llwyr byddai meddwl hynny wrth gwrs - mae encil-iad yr ardaloedd naturiol eu hiaith tua'r Gorllewin a phroblemau fel diboblogi a mewnlifiad yn fygythiad parhaol .

Mae hefyd yn holl bwysig i'r Gymraeg bod y bobl ifanc sy'n dysgu a defnydd-io'r iaith yn ein system addysg yn parhau i wneud hynny wedi gadael muriau'r ysgol. Mae hanes diweddar S4C hefyd yn dangos pa mor fregus yw ein sefydliadau Cymraeg i fygyth-iadau tu hwnt i'n rheolaeth yng Nghymru ac mae'r hinsawdd ariannol gyhoeddus presennol yn rhoi pwysau cynyddol ar yr adnoddau eithriadol o brin sydd gan yr iaith Gymraeg i gyst-adlu yn erbyn diwylliant Eingl-Americanaidd byd eang.

Mae'n gyfnod cyffrous i'r iaith ond am bob cyfle newydd mae bygythiad i'r hyn sydd ganddom eisoes. Dyna pam fod eleni yn gyfnod pwysicach nag erioed i hyrwyddo'r Gymraeg. Bydd y Mesur Iaith newydd yn sicrhau Comis-iynydd Iaith i ddiogelu hawliau siar-adwyr Cymraeg ond heb i bobl Cymru ddefnyddio'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig bydd creu argraff yn y swydd honno yn llawer iawn anodd-ach.

Felly dyma her i ni oll am y 12 mis nesaf - wedi cael mis i ddod dros eff-eithiau'r Nadolig a Chalan - ydi hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob ffordd y gallwn ni. Mae sawl un ohonom yn y Brifddinas mewn swyddi diddorol sy'n talu'n dda ac mae'r ffaith ein bod yn siarad Cymraeg wedi cyfrannu at ein presenoldeb yn y swyddi hynny. Dyma amser da i ni ddechrau talu'n ôl.

## ÔL-LWYBRAU
**Walter Ariel Brooks**

Caerdydd oedd y ddinas gyntaf yng Nghymru i mi ymweld â hi. Rwy'n cofio disgyn o'r trên o Lundain yn yr orsaf ganolog yn llawn brwdfrydedd a chyffro. Roeddwn wrth fy modd yn gwireddu'r breuddwyd o weld gwlad fy hynafiaid ac yn awyddus iawn i ddysgu mwy o Gymraeg yn Llanbedr Pont Steffan yn ystod haf 1999.

Ond fel mae'n digwydd i lawer o Bat-agonwyr sydd yn siarad Cymraeg, cef-ais siom torcalonnus wrth geisio ymar-fer fy Nghymraeg bratiog mewn swyddfeydd a siopau yng Nghaerdydd wrth ddarganfod nad oedd neb yn fy neall i. Yn wahanol i lawer o fy nghyd-Batagonwyr, roeddwn i'n rhugl yn Saesneg, felly cefais y pleser o glywed acen Saesneg Caerdydd am y tro cynt-af…

Mwy na degawd sydd wedi mynd heibio ers mi ddod i Gaerdydd am y tro cyntaf. Erbyn hyn, rwyf wedi ym-gartrefu ynddi, ac wedi darganfod ail gartref i mi a'r teulu. Mae hi'n ddinas sydd yn teimlo'n braf. Mae hi rywle yn y canol rhwng dau le sydd wedi bod yn bwysig iawn yn fy mywyd: Patagonia a'i hunigrwydd a phrysurdeb Buenos Aires, ble es i i'r Brifysgol.

Mae Caerdydd yn hollol wahanol i'r ddau le wrth gwrs, ond mae'n cyfuno tawelwch lle bach â'r cyfleoedd a'r atyniadau yr ydych yn disgwyl eu cael mewn dinas fawr. Gallaf seiclo yn y bore trwy feysydd Pontcanna ar y ffordd i'r gwaith a theimlo bod y dos o awyr ffres yn fy nghysylltu â byd natur am ennyd. A oes ffordd well i ddech-rau diwrnod o waith? A gyda'r nos, gallaf fynd i dŷ opera o safon uchel a theimlo nad wyf yn colli dim wrth fyw mewn prifddinas anghyffredin o saf-bwynt ei maint. A phe byddwn yn cael digon o fywyd dinesig, gallwn fod mewn traeth prydferth neu yn cerdded ar ben bryniau godidog ar ôl gyrru llai nag awr - tipyn o wahaniaeth gydag anferthedd yr Ariannin, ble rydych yn gorfod gyrru neu hedfan am oriau er mwyn gweld newidiadau sylweddol yn yr olygfa.

Nid oes gennyf le i drafod yr agwedd-au sydd ddim yn fy mhlesio – ond mae'r ffaith fy mod i'n dal i fyw yng Nghaerdydd ar ôl mwy na degawd yn dangos bod yr agweddau bwysicach o lawer.

## CYMDEITHAS WYDDONOL CAERDYDD

Teitl darlith Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd ar Ionawr 17eg oedd "Ymchwil Diweddar ar Dynged yr Haul" gan Rhys Morris o grŵp Astro-ffiseg Prifysgol Bryste. Dechreuodd y ddarlith trwy esbonio ein syniadau presennol am esblygiad sêr tebyg i'r Haul. Credir y bydd sêr sydd â mas tebyg i'r Haul yn sefydlog ac yn gyson trwy eu bywydau hir, ond tua diwedd eu bywydau, wrth iddynt ddod i derfyn eu tanwydd, byddant yn colli llawer o nwy a llwch i'r gofod o'u hamgylch. Wrth i'r seren droi yn gorrach gwyn crasboeth bydd yr holl nwy a llwch a gollwyd i'r gofod yn cael ei oleuo ac weithiau yn ffurfio patrymau cywrain a deniadol iawn. Yn y rhan cymharol fyr yma o'i bywyd mae'r seren wedi troi yn nifwl planedol.

Er yr enw, does gan y cyfnod yma ddim i'w wneud â phlanedau, ond caf-wyd yr enw gan William Herschel, y seryddwr enwog, yn y ddeunawfed ganrif. Fe welodd nifwl planedol am y tro cyntaf, a'i gwelodd e'n debyg i'r blaned Sadwrn. Esboniodd Rhys ei bod yn bosib amcangyfrif faint o nifylau planedol ddylai fod yn ein galaeth ar hyn o bryd - a gwelir fod y nifer o nif-ylau sydd wedi eu darganfod hyd yn hyn dipyn yn is.

Amlinellodd Rhys sut y mae'r broblem yma yn cael ei datrys drwy wneud ar-olygon manwl o'r llwybr llaethog yn chwilio am nifylau planedol a gollwyd hyd yn hyn fel rhan o gyfrifiad cosmig.

Mae Rhys a'i gydweithwyr wedi darganfod cannoedd o nifylau newydd ac felly mae'r dystiolaeth o'r arsylliadau yn dod yn agosach i'r ddamcaniaeth. Y pwysigrwydd mawr i ni, yw profi ein dealltwriaeth o'r Haul, rydym yn siŵr o'r ffiseg, ond os na gawn hyd i'r nifylau coll, yna bydd rhaid ail-ystyried rhai o'n syniadau am esblygiad sêr - ac yn fwy pwysig - tynged ein Haul ni!

*Neville Evans*

## AELWYD HAMDDEN CYMRU CAERDYDD

Er gwaethaf hin oer mis Rhagfyr llwyddwyd i gynnal un cyfarfod, sef gwasanaeth Gŵyl y Geni dan arweiniad y gŵr gwadd, y Parchedig Denzil John, Y Tabernacl. Cyflwynodd neges rymus ar wir ystyr y Nadolig a'n atgoffa o'n dyletswyddau a'n cyfleoedd fel aelodau o'r gymdeithas hon a'r un lletach adeg hon o'r flwyddyn. Dilynwyd hyn gan barti tymhorol blasus wedi ei baratoi gan yr aelodau.

Cychwynnodd cyfarfodydd y flwyddyn newydd yng nghwmni Mrs Eirlys Davies, Radur, a fu'n hel atgofion diddorol iawn o'i hymweliad llawn digwyddiadau a Kenya yng nghwmni ei diweddar briod, y Parchedig T. J. Davies a'u merch, gan ddangos enghreifftiau o waith llaw y brodorion a gasglwyd ganddynt. Hefyd, yn ystod y mis croesawyd Mr Iolo Walters, Rhiwbeina i roi sgwrs ar ddylanwadau ei gynefin eang arno, gan roi darlun hynod o ddiddorol o'i brofiadau ar hyd ei fywyd yng nghwmni ei rieni ymroddgar, Mr a Mrs Llewelyn Walters ac eraill. Dangosodd rai llyfrau a llythyron a gyfrifai'n drysorau amhrisiadwy.

Gyfeillion, beth am wneud adduned blwyddyn newydd i ymuno â'r Aelwyd, sy'n cwrdd bob pythefnos yn festri eglwys Minny Street? Cewch groeso cynnes gan y llywydd, Mair Morgan, yr ysgrifennydd Marian Lake a'r aelodau.

Edrychwch yng nghalendr y *Dinesydd* am fanylion y cyfarfodydd.

## ELFED YN PONTIO'R CANRIFOEDD

Elfed oedd un o ffigurau amlycaf y bywyd Cymraeg o ddiwedd Oes Victoria hyd at ganol yr 20fed ganrif. Bu'n Archdderwydd Cymru, yn un o hoelion wyth y pulpud, yn fardd telynegol poblogaidd, ac yn awdur emynau cyfarwydd megis 'Cofia'n gwlad, Benllywydd tirion' a 'Rho im yr hedd, na ŵyr y byd amdano'. Cafodd fywyd hir. Fe'i ganed yn ardal Cynwyl Elfed yn 1860 a marw ym Mhenarth yn 1953.

Roedd 2010 felly yn 150 mlwyddiant ei eni. O gofio ei gyfraniad i'n bywyd cenedlaethol, mae'n rhyfedd cyn lleied o sylw a gafodd y llynedd – ond nid yw'n syndod ychwaith, efallai, o gofio'r amnesia sydd wedi disgyn arnom fel cenedl. Da felly oedd gweld Cymrodorion Caerdydd yn neilltuo cyfarfod i'w gofio ar 10 Rhagfyr (sef union ddyddiad ei farw, fel mae'n digwydd).

Y darlithydd gwadd oedd yr Athro Prys Morgan, a chafwyd ganddo bortread byw o Elfed a'i oes. Canolbwynt ei ddarlith oedd un atgof arbennig iawn. Symudodd Elfed i fyw i Erw'r Delyn, Penarth yn 1940. Trigai'r Athro W. J. Gruffydd mewn fflat yn yr un tŷ, a byddai T. J. Morgan (tad Prys), a gydweithiai'n agos ag W. J. Gruffydd, yn galw i weld y ddau. Canlyniad hynny oedd i Prys a'i frawd, Rhodri, gael eu gwahodd i barti pen-blwydd Elfed yn 90 oed yn Ebrill 1950.

Disgrifiwyd Elfed un tro fel 'y bont a gysylltodd ddwy ganrif', a soniodd Prys am ryfeddod y ffaith iddo ef, yn fachgen ifanc, fod ym mharti pen-blwydd un a oedd wedi cwrdd â'r bardd Tennyson ac wedi cael y nofelydd, Daniel Owen, yn deiliwr iddo. Pan ofynnodd Rhodri i Elfed pam mai dau grwt ifanc oedd yr unig westeion a wahoddwyd i'w barti, ateb Elfed oedd: fel y byddai rhywrai yn dal i'w gofio yn yr 21ain ganrif. Dewisodd yn dda, oherwydd fe aeth Rhodri ymlaen i fod yn Brif Weinidog cyntaf Cymru a'i frawd, Prys, i fod yn un o'n haneswyr a'n darlithwyr cyhoeddus disgleiriaf.

Ac o gofio amlygrwydd Elfed yn yr ymgyrch yn Oes Victoria i gael senedd i Gymru, nid amhriodol gweld y parti pen-blwydd hwnnw yn Ebrill 1950 yn bont sy'n cysylltu tair canrif yn hanes ein gwleidyddiaeth!

*E. Wyn James*

## MERCHED Y WAWR BRO RADUR

Yng Nghyfarfod Tachwedd cawsom gynghorion buddiol ar ofal ein croen. Bu Sioned Bryant o Salon Sioned, Yr Eglwys Newydd yn dangos cyfrinachau mapio croen yr wyneb a defnyddio cynnyrch pur. Dathlwyd y Nadolig yng nghwmni aelodau dawnus Côr y Waun Ddyfal.

Croesawyd 2011 gan Gwmni Dawns Werin Caerdydd. Diolch i Diane Bartholomew am drefnu noson hwyliog yn rhoi hanes hen arferion y Cymry yn ystod cyfnod y Nadolig a'r Calan. Dathlwyd Diwrnod Santes Dwynwen yng nghwmni Sulwyn Thomas. Dathlwn Gŵyl Ddewi yng nghwmni T James Jones ar y 9fed o Fawrth yng Nghapel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur.

## MERCHED Y WAWR CAERDYDD

Mewn llygedyn rhwng yr eira a'r rhew llwyddodd y gangen i ddathlu'r Nadolig gyda thamaid blasus a charol. Ym mis Ionawr cafwyd noson â blas tra gwahanol. Daeth Mrs Glenys Roberts atom, sef enillydd Coron Blaenau Gwent, ac arweiniodd ni trwy gefndir y casgliad a'r hyn a'i symbylodd. Roedd cyrraedd y brig ar ei hymdrech gyntaf wedi'i syfrdanu ond eto roedd ennill yng Nglyn Ebwy yn ychwanegu at y Goron gan mai dyna ardal enedigol ei thad. Diolchwyd iddi gan Mrs Myfanwy Jarman.

**Llongyfarchiadau i ...**

* Iwan Walters, Pontcanna, ond gynt o Riwbeina, a Kim Spiller, Pentre Sant Andras ger Dinas Powys, ar eu dyweddïad ar yr 2 Ionawr.

* Aled Evans, Rhiwbeina, ar ei ddyweddïad â Helena Potts o Harpenden ar Dachwedd 13.

## NEWYDDION O'R EGLWYSI

### EGLWYS DEWI SANT

**Gwasanaeth Carolau'r Cilgant**
Er na fu'n bosibl cynnal Drama Nadolig plant yr Ysgol Sul na'r gwasanaeth Naw Llith a Charol traddodiadol, llwyddwyd i groesawu gweithwyr y swyddfeydd sydd yng nghyffiniau'r eglwys i wasanaeth carolau dwyieithog cyn i'r eira gyrraedd. Mae'r achlysur yn draddodiad bellach ac mae'r nifer fawr sy'n mynychu'r gwasanaeth yn dyst i'w boblogrwydd. 'Roedd y gwasanaeth o dan arweiniad y Parchedig Tomos Watkin. Gwahoddwyd pawb i'r neuadd ar gyfer lluniaeth ysgafn ar ôl y gwasanaeth.

**Cristingl**
Cynhelir gwasanaeth hyfryd y Cristingl ym mis Ionawr bob blwyddyn i ddathlu Crist fel goleuni'r byd. Plant yr Ysgol Sul oedd wedi addurno orennau'r Cristingl gyda rhuban coch, ffrwythau sych, losin a channwyll ym mhob un. Cafodd pob aelod o'r gynulleidfa Gristingl a bu pawb yn gorymdeithio o gwmpas yr eglwys yng ngolau'r canhwyllau. Casglwyd £113 tuag at Gronfa Archesgob Cymru er budd plant.

**Swper Hen Galan**
Daeth tua 50 ynghyd i ddathlu'r Hen Galan yn neuadd yr eglwys. Cafwyd bwffe blasus dros ben wedi'i baratoi gan Liz Fulardi a braf oedd cael y dynion i glirio a golchi'r llestri! Roedd rhaid i blant yr Ysgol Sul aros yn amyneddgar tan ganol mis Ionawr i fwynhau eu parti Nadolig ond cawson nhw lawer o hwyl yn y pen draw.

## PRIODAS DDA

...i Mari Osborne a Gareth Williams yr Eglwys Newydd ar eu priodas er gwaetha'r eira a'r rhew ar y 18 Rhagfyr yng Ngwesty Dewi Sant yn y Bae, yn lle yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod y Garth, oherwydd problemau cyrraedd y capel.

## EGLWYS Y CRWYS

**Y Grŵp Merched**
Cafodd y grŵp yma noson hyfryd iawn yn ei Swper Nadolig blynyddol yn y festri. Roedd y byrddau wedi eu hulio yn ofalus gan Margaret Roberts, Ann Brain, Pat Lister, Sian Evans a Babs Evans. Paratowyd y bwyd yn ei dull dihafal ei hun gan Lis Foulardy, ac fe fu'r dynion yn gweini yn ôl y galw ac wrth gwrs yn golchi'r llestri.

Nos Lun Ionawr 10fed y siaradwr gwadd oedd Alwyn Humphries. Cafwyd ganddo noson i'w chofio yn olrhain pigion o fyd cerddoriaeth yn ogystal ag ambell atgof o'i ieuenctid, ei ddyddiau ysgol a'i brofiad mewn ysbyty yn Lerpwl. Roedd hi'n noson ac ynddi rywbeth i bawb yn ôl chwaeth a diddordeb yr unigolyn.

**Y Gorlan**
Ein siaradwr gwadd ym mis Rhagfyr oedd y Parchedig Carwyn Arthur. Mae gan Carwyn gysylltiadau agos â Phatagonia, ei wraig yn hanu o'r dalaith ddeheuol honno o'r Ariannin. Profiad gwerthfawr oedd cael gwrando arno yn adrodd hanes y Wladfa a rhoi y cyfan mewn cyd-destun cyfoes. Prynhawn o groesi aml i baith yng nghwmni'r cyfarwydd.

Carys Tudor Williams oedd yn ein harwain o'r 'Ffin i'r Ffynnon' ar brynhawn Dydd Mercher Ionawr 12fed. Byrdwn ei sgwrs oedd y datblygiad mewn addysg Gymraeg yn Sir Fflint a'r gororau pan oedd hi yn blentyn yn cael ei magu yn y fro arbennig hon. Soniodd am y casineb at y Gymraeg yn enwedig wedi i ysgolion cyfrwng gael eu sefydlu gan arloeswyr cynnar fel Y Dr Haydn Williams.

**Y Gymdeithas**
Roedd trefniadau'r Gwasanaeth Blwyddyn Newydd yng ngofal Eleri Bines ac fe gafwyd ganddi wasanaeth cytbwys oedd yn ein harwain at arwyddocâd y gwahanol dymhorau o'r flwyddyn Gristnogol. Roedd y cyfarfod yn cynnwys darlleniadau o'r ysgrythur, darnau o lenyddiaeth berthnasol, emynau dethol a gweddïau o ffynonellau amrywiol.
Diolch Eleri.

## BETHEL RHIWBEINA

Mi amharodd y tywydd garw yn fawr iawn ar weithgareddau'r Nadolig. Methwyd â chynnal Oedfa Nadolig yr oedolion, oedfa Noswyl Nadolig ac oedfa Sul ola'r flwyddyn. Ond mi lwyddwyd i gynnal Oedfa Nadolig y plant ac mi gafwyd gwledd fel arfer. Diolchodd y Gweinidog, y Parchedig T. Evan Morgan, i'r athrawon a'r rhieni am eu paratoi, ac mi gafodd pob un o'r plant anrheg gan Siôn Corn. Mi gliriodd yr eira a'r rhew ddechrau'r flwyddyn ac mi gafwyd oedfa i adnewyddu'r cyfamod â Duw, oedfa oedd wedi ei pharatoi gan Mr Eifion Hopwood, ac yn ystod yr oedfa honno hefyd bu côr bach y capel yn canu'r carolau yr oeddent wedi gobeithio eu canu yn ystod yr Oedfa Nadolig.

Llongyfarchiadau i un o'n haelodau, Dr Gethin Matthews, ar ei waith gyda'r prosiect 'Cymry'r Rhyfel Mawr Arlein'. Yn ôl ei erthygl yn 'Cristion' cafodd wybodaeth hynod o ddiddorol am y rhyfel mewn sawl ardal yng Nghymru. Mae Gethin yn ddarlithydd yn Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd Prifysgol Caerdydd.

Cydymdeimlir yn fawr â Mair a Dyfri Jones, Rhiwbeina, yn eu profedigaeth. Bu farw brawd i Mair yn ardal Rhydaman.

## SALEM, TREGANNA

**Derbyn**
Cafodd 7 o bobl ifanc eu derbyn yn ystod gwasanaeth arbennig yn Salem ddechrau Rhagfyr. Braf iawn oedd gweld y 7 yma'n penderfynu dod yn aelodau cyflawn o'r eglwys.

**Er gwaetha'r tywydd...**
Er gwaetha'r tywydd, fe wnaeth y grŵp canu eu cyfraniad cyntaf mewn gwasanaeth ddechrau Rhagfyr, oedd yn hyfryd, o dan arweiniad Geraint Cynan. Braf iawn oedd gallu cynnal y gwasanaeth fore Nadolig hefyd oedd yn llawn cynhesrwydd!

**Bedydd**
Bedyddiwyd Manon ac Awen, plant Gwyn a Rhian yn Salem ar y 16 Ionawr. Dymunwn yn dda iawn iddynt fel teulu i'r dyfodol.

Mae'r **Clwb Brecwast** a'r **Clwb Llyfrau** wedi cyfarfod yn ystod Ionawr.

**Cyflwyno Tysteb**
Fore Sul y 16 Ionawr cyflwynwyd tysteb ar ddiwedd y gwasanaeth i'r Parchedig Dafydd Andrew Jones, sy'n aelod yn Salem ers dros chwarter canrif, ar ei ymddeoliad fel Cyfarwyddwr Bywyd a Thystiolaeth yr enwad. Rydym yn dymuno'n dda iawn iddo a'r teulu i'r dyfodol.

**Ympryd y Bobl Ifanc**
Ddydd Sadwrn y 22 Ionawr fe wnaeth nifer o bobl ifanc y capel ymprydio drwy'r dydd, er mwyn gallu uniaethu â chymunedau tlotaf ein byd. Maent wedi bod wrthi ers tro yn chwilio am noddwyr i'r ympryd, a'r elw tuag at Gymorth Cristnogol. Daeth nifer o aelodau'r capel draw i gefnogi'r bobl ifanc yn ystod y dydd. Cafwyd cyflwyniad gan Aled Pickard o Gymorth Cristnogol yn ystod y dydd, a soniodd am ei ymweliad ag un o brosiectau Cymorth Cristnogol yn Ne Affrica.

Diolch i Aled am ei anogaeth, i'r bobl ifanc am gymryd rhan ac i bawb a'u cefnogodd. Dyma brofiad oedd wir yn agor ein llygaid i anghenion sylfaenol pobl ledled ein byd.

## EBENESER

**Y Mob**
Roedd yr ieuenctid wedi penderfynu yn ystod mis Tachwedd eu bod nhw'n cael mwy na digon, nid yn unig yn ystod y Nadolig ond yn ystod y flwyddyn gyfan.

O sylweddoli eu bod mewn digonedd aethpwyd ati i drefnu gweithgaredd arbennig er mwyn codi arian i brynu anrhegion ar gyfer plant anghenus rhai o wledydd tlotaf y byd. Gwerthwyd paned a theisen gan yr ieuenctid a chodwyd £100 drwy eu hymdrechion a nhw benderfynodd ble y byddai'r arian yn mynd. Penderfynwyd y byddai'r arian yn mynd i brynu rhwydi mosgito, rhandiroedd, 100 o goed ffrwythau, dwy afr, a thanc dŵr i bentref er mwyn sicrhau dŵr glân i drigolion y pentref.

**Ciniawa**
Aeth criw da unwaith eto eleni i ymuno ag eglwysi eraill canol y ddinas yn y cinio eciwmenaidd blynyddol sy'n cael ei gynnal bob mis Ionawr. Roedd tua thrigain yno a chynhaliwyd y noson unwaith eto eleni yn y 'City Church' Windsor Place.

Dechreuwyd y noson gyda gwasanaeth byr cyn symud ymlaen i gael pryd blasus tri chwrs am bris rhesymol o £8.00. Wynford Ellis Owen oedd y siaradwr gwadd a bu'n sôn am Yr Ystafell Fyw, Caerdydd. Dyma'r ganolfan driniaeth arfaethedig fydd yn cynnig gofal dydd i rai sy'n cael anhawster gydag alcohol, cyffuriau neu unrhyw ddibyniaeth arall. Ewch i www.welshcouncil.org.uk/index-cymraeg i ddysgu mwy am y cynllun.

**Cydymdeimlad**
Trist iawn oedd colli un o'n haelodau ffyddlonaf ar ôl cyfnod hir o salwch. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda Delyth ac Eynon Williams a'u merched, Llinos, Nia a Lisa, yn dilyn marwolaeth diweddar mam Delyth, Jean Ewart Jones.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa'r Ddraenen Wen ar 18 Ionawr. Talwyd teyrnged glodwiw iddi gan y Parch Alun Tudur.

**Mynd ar grwydr**
Mae Lisa, merch Delyth ac Eynon Williams wedi penderfynu cymryd cyfnod allan o addysg, i grwydro'r byd.

Dymunwn iddi anturiaethau hapus a diogel.

## MINNY STREET

**Y Gymdeithas Ddiwylliannol**
'Sebon, Heulwen, Het a Chlocsen' oedd testun gogleisiol Dianne ac Andrew Bartholomew wrth iddynt agor gweithgareddau'r Gymdeithas yn 2011. Cyfeirio at sebon *Sunlight* cwmni Lever Brothers yr oedd y 'Sebon' a'r 'Heulwen' yn y teitl. Eglurwyd fel y bu i berchennog y cwmni hwnnw brynu darlun enwog yn 1909.

Yna, o'r festri i'r capel â phawb i weld *tableau* trawiadol o rai o'n haelodau yng ngwisgoedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg – ymgais benigamp i efelychu *Salem* gan Sydney Curnow Vosper. Troi'n naturiol wedyn at 'Het a Chlocsen' y teitl. Dianne gyflwynodd hanes y wisg Gymreig a gwisgoedd Cwmni Dawns Werin Caerdydd y mae hithau ac Andrew yn aelodau ohono.

Soniwyd am rai o deithiau'r Cwmni i Siapan a'r Amerig, ond y daith a greodd argraff ddofn arnynt oedd honno i'r Wcráin a hynny oherwydd natur groesawgar y bobl. Argyhoeddwyd Dianne ac Andrew a'r Cwmni Dawns o weld y fath haelioni fod cyfnewid diwylliannol yn ffordd hynod effeithiol o greu perthynas gyfeillgar a chymodlon rhwng cenhedloedd byd

**Cydymdeimlo**
Cofiwn yn annwyl am aelod a fu yn organydd, diacon ac ymddiriedolwr ym Minny Street, sef **Brian Evans** (Llanisien) a fu farw ar 19 Rhagfyr. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch ym Minny Street ar 7 Ionawr. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'i briod, Glenys, ynghyd â Lisa ac Emyr a'u teuluoedd.

**Priodas**
Dymunwn yn dda i **Rebecca Murphy** a **Matthew Lyne-Pirkis** yn dilyn eu priodas ym Minny Street ar 15 Ionawr.

**Bedydd**
Hyfrydwch fu tystio i fedydd **Greta Mair Llewelyn**, merch Siân ac Aled Walters (Pontcanna) ac wyres Eiryl ac Iolo Walters, fore Sul, 23 Ionawr. Dymunwn yn dda i'r teulu.

## TABERNACL

**Genedigaeth**
Rhannwn lawenydd Seth Mannion o Ben-y-Bont Ar Ogwr ar enedigaeth ei frawd bach Noa Tomos Mannion. Mae eu mam Elin mewn hwyliau da, ac mae Sian a Howard Phillips ar ben eu digon. Llongyfarchiadau cynnes i'r teulu.

**Cymdeithas Nos Fawrth**
Gwelwyd niferoedd uwch na'r arfer yn y cyfarfodydd diweddar. Roedd Gillian Elisa yn hwyliog iawn, a Stuart Cole yn ffraeth yn ôl ei arfer. Bu'r noson gerddorol gyda Calan McGreevy, Marc Jon ac Euros Rhys yn sôn am eu hoff ddarnau cerddorol, yn llwyddiannus.

Cafwyd noson werinol yn Nhonyfelin, pan ymwelodd cyfeillion y Tabernacl ag aelodau Salem Tonteg, a phawb yn mwynhau'r cymdeithasu. Daeth nosweithiau fis Rhagfyr i ben gyda Penny Readings hwyliog. Diolch i Bryn Evans am drefnu, ac i bawb a gymerodd ran yn yr hwyl.

Cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd oedd hwnnw pan ddaeth y Prifardd Mererid Hopwood i'n diddanu. Cawsom sawl hanesyn o'i bywyd yng Nghaerdydd a'r Gorllewin a chafwyd noson fendigedig yn ei chwmni.

**Cymdeithas y Chwiorydd.**

Cafodd y chwiorydd amser buddiol bob wythnos. Diolch iddynt am eu cysondeb a dathlwn y cyfeillgarwch amlwg sydd yn bodoli yn eu mysg.

**Bore Coffi.**

Diolch i Diana Owen am ein gwahodd i'w chartref yn ystod mis Tachwedd. Teithiodd Diana i Lundain ddechrau mis Rhagfyr i weld ei merch yn derbyn yr anrhydedd y CB ym Mhalas Buckingham. Roedd y bore coffi ddechrau mis Rhagfyr ar aelwyd Ron a Glenys Lindsay - diolch iddyn nhw hefyd.

**Côr y Tabernacl**

Roedd Côr y Tabernacl wedi ailymgynnull ar Ionawr 23ain am 4.00 p.m.(Nodwch taw dyma yw'r amser ymarfer ar y dechrau).

Cynhelir y gyngerdd ar Ebrill 12fed a byddwn yn perfformio *Gloria* gan Vivaldi. Mae gwahoddiad cynnes i bawb sydd â diddordeb i ymuno i wneud hynny, fel y gallwn sicrhau nifer sylweddol o aelodau eleni.

Cysylltwch ag Euros am rhagor o fanylion.

**CYRSIAU I OEDOLION**

Mae Menter Caerdydd wedi paratoi amserlen newydd o Gyrsiau Oedolion gan gynnwys Ffotograffiaeth i Ddechreuwyr, Zumba, Gwella eich Gitâr, Creu Gwefan a **Traddodiadau Gwerin Morgannwg.** I gofrestru neu am ragor o wybodaeth, ewch i'r wefan:

www.MenterCaerdydd.org

## Cydymdeimlo â ...

* theulu y diweddar Owen Best, 19 oed, a fu farw'n sydyn ac yn annisgwyl ar y 6 Ionawr. Mae teyrnged i Owen gan Hefin Griffiths Pennaeth y Chweched yn Ysgol Glantaf, yn y rhifyn yma o'r Dinesydd.

* theulu y diweddar Barry Rochefort, y Barri, a fu farw'n dawel yn Ysbyty'r Brifysgol ar y 27 Rhagfyr.

* theulu y diweddar Brian Evans, Llanisien, ond gynt o Rhiwbeina, a fu farw'n dawel ar ôl cystudd hir yn 76 oed yn Ysbyty'r Brifysgol ar y 19 Rhagfyr.

* Theulu y diweddar Alwyn Tomos, y Mynydd Bychan, ond gynt o Frynaman, a fu farw'n sydyn a dirybudd ar y 6 Ionawr.

* theulu y diweddar Jean Ewart Jones, Rhiwbeina, a fu farw'n dawel ar y 4 Ionawr yn Ysbyty'r Brifysgol.

* theulu y diweddar Adeline Davies a fu farw'n dawel yn Ysbyty Rookwood ar y 26 Rhagfyr.

* theulu y diweddar Lilian Jones a fu farw'n dawel ar y 21 Rhagfyr yn 102 oed yn Nhŷ Nazareth, ond gynt o Fynydd y Garreg.

* theulu y diweddar Eluned Rhys Bere a fu farw'n dawel yn ei chartre' Bod Iwan yn y Barri ar y 22 Rhagfyr. Hanai Eluned o'r Bala a chyn ei hymddeoliad bu'n brifathrawes Ysgol y Babanod yn Ysgol Llanisien Fach. Roedd yn gyfnither i Luned Gonzalez a Tegai Roberts, Y Gaiman yn y Wladfa, ac Arturo Roberts, New Hampshire.

* theulu y diweddar Menna Lewis, Y Barri ond gynt o Flaenplwyf Ceredigion, a fu farw'n dawl yn 87 oed yn Ysbyty'r Brifysgol .

* theulu y diweddar Anwen Coffey, Gwaelod y Garth, ond gynt o Langynog, a fu farw'n dawel yn ei chartre' ar y 5 Ionawr yn 60 oed.

* theulu y diweddar Rhobert ap Steffan Llangadog a fu farw yn dawel ar ôl salwch byr yn ei gartre ar 11 Ionawr. Roedd yn wladgarwr twymgalon ac yn gefnogwr pybyr dros bopeth Cymraeg a gwelir ei eisiau'n fawr. Dysgodd Cymraeg yn ŵr ifanc yn y wladfa, ac fe'i gelwid yn "Castro" gan ei ffrindiau.

## YSGOL MYNYDD BYCHAN

**Llongyfarchiadau**

Dymuna'r ysgol longyfarch athrawes y Dosbarth Derbyn, Mrs. Laura Dobson a'i gŵr Owain ar enedigaeth eu mab Celt Elis. Daeth y newyddion braf ddiwrnod cyn ein gwasanaeth Nadolig. ac roedd plant y babanod yn gobeithio'n fawr y gallant gynnwys Celt yn eu perfformiad i chwarae rhan y baban Iesu!

**Dathlu Aml-ddiwylliant**

Fel ysgol, rydym yn ymlawenhau yn yr amrywiaeth o ddiwylliannau sy'n bodoli yn y brifddinas ac i ddathlu hyn, trefnwyd cyfres o weithgareddau yn ddiweddar. Cawsom gyfle i ddawnsio 'Bhangra' a'n cyflwyno i rai o draddodiadau'r ffydd Sikh yng nghwmni Bobby Sing.

Cofiadwy yn wir oedd y sesiynau coginio Sïcaidd, pan gafodd y plant y cyfle i goginio Cig Oen a blasu caws a fferins sy'n nodweddiadol o'r India.

**Cefnogi Gambia**

Pan ddaeth cais tua blwyddyn yn ôl i gefnogi athro o Ysgol y Llys yng Nghaerdydd a oedd yn bwriadu treulio cyfnod gwirfoddol yn cynorthwyo ysgolion yn y Gambia, cafwyd ymateb brwdfrydig gan y disgyblion. Wedi i ni ymchwilio i'r sefyllfa yno, a darganfod nad oedd gan y disgyblion hyd yn oed bensiliau a phapur, aethpwyd ati yn syth i gasglu adnoddau i'w danfon allan.

Casglwyd dros 30 bocs esgidiau llawn adnoddau gan yr adran iau. Cawsom y fraint o groesawu'r athrawon o Ysgol y Llys i'n hysgol ym mis Ionawr, a braf oedd gweld lluniau o blantos y Gambia yn defnyddio'r adnoddau yr oeddem wedi casglu.

**Cydraddoldeb Hiliol**

Enillodd Rhoslyn Hill, Blwyddyn 3, y gystadleuaeth 'Calendr Cydraddoldeb Hiliol 2011' Mae'r llun a wnaeth yn ymddangos ar dudalen mis Awst, ac mae'r staff yn edrych ymlaen yn fawr at weld y mis hwnnw ar eu calendrau!!!

menter caerdydd

www.mentercaerdydd.org

# Penwythnos Teulu i Langrannog

### Ebrill 15 – 17, 2011

Mae lle ar ôl ar y penwythnos poblogaidd hwn yng Ngwersyll Llangrannog - ewch i wefan y Fenter am fwy o fanylion.

# Bwrlwm

Fe fydd y Fenter yn cynnig cyfleoedd CHWARE yn rhad ac am ddim yn ystod gwyliau hanner tymor rhwng Chwefror 21 a 25. Fe fydd y gweithgareddau yn cynnwys coginio, celf a chrefft, wii, playstations a llawer mwy, i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae croeso cynnes iawn i blant o ddosbarth derbyn i flwyddyn 6. Nid oes angen cofrestru o flaen llaw - dim ond dod ar y diwrnod!

# Diwrnod Chwarae

Dydd Mercher Chwefror 23
Cyfleodd chwarae rhad ac am ddim yn Ysgol Plasmawr (10am - 12pm)
ac Ysgol Bro Eirwg (1.30pm-3.30pm)
Bydd wal ddringo Boulders yno, yn ogystal â chwaraeon, coginio, celf, colur dolur a llawer mwy!
aweldavies@mentercaerdydd.org




Dathlwyd Diwrnod Santes Dwynwen eleni wrth i ni ymweld â John Lewis i ddosbarthu cardiau a siocledi! Roedd calon fawr goch o'r enw Dwynwen yn dipyn o seren i'r holl siopwyr!! Yn ystod y bore, bu Dwynwen yn ynweld â'r Cynulliad a Chyngor Caerdydd hefyd. Diolch i John Lewis ac i bawb fu'n cynorthwyo gyda'r dathliadau!

# Ieuenctid

Fe fydd amserlen amrywiol o weithdai undydd i ddisgbyblion Blwyddyn 7, 8 a 9 yn cael eu cynnal ar y cyd â'r Urdd yn ystod Hanner Tymor Chwefror.
Coginio
Animeiddio
Beicio BMX
Rhedeg Rhydd
Hwylio
Cerdded Afon
Am fwy o fanylion ewch i wefan y Fenter

### Cynlluniau Gofal Hanner Tymor Chwefror

**21 – 25 Chwefror, 8.30am – 5.30pm**

Lleoliad: Ysgol Melin Gruffydd

ac Ysgol Treganna

Croeso i ddisgyblion o

ddosbarth derbyn, i flwyddyn 6.

£15 y dydd,

Cynhaliwyd cwrs undydd Canwio i Oedolion lawr yn y Bae yn ystod mis Ionawr. Roedd y cwrs, a drefnwyd mewn partneriarth gyda Chyngor Caerdyd yn llwyddiant ysgubol!



# Cyrsiau Oedolion

Mae tymor newydd o ddosbarthiadau nos i Oedolion wedi dechrau, a'r niferoedd yn wych. Am fwy o wybodaeth, neu i weld os lle ar ôl ar rhai o'r cyrsiau, cysylltwch ag aweldavies@mentercaerdydd.org
Yoga
Zumba
Cwiltio, Clytwaith, Gwnio a Gwau
Gitar
Ffotograffiaeth Digidol i Ddechreuwyr
Creu gwefan
Eidaleg
Trefnu Blodau

# Miri Meithrin

Dydd Mawrth, Chwefror 22

2pm - 3.30pm

Canolfan Hamdden Pentwyn

## 'Hwyl' Hanner Tymor Chwefror

Gweithgareddau ar gyfer disgyblion blynyddoedd 1, 2 a 3

Celf Drama Gymnasteg a Thrampolin Rygbi

Gweithgareddau ar gyfer disgyblion blynyddoedd 4, 5, a 6

## Cwis

Fe fydd cwis Cymraeg nesaf y Fenter yn cael ei gynnal



# RYSÁIT Y MIS

## Gan Nerys Howell o Ymgynghoriaeth Bwyd Howel

**Cawl cennin a chaws Cymreig**

Dechreuaf y gyfres gydag un o ryseitiau o'n llyfr Cymru ar Blât. Llyfr sy'n seiliedig ar fwydydd traddodiadol a chyfoes. Nid cawl traddodiadol yw hwn ond un sy'n seiliedig ar gawl cennin gyda chaws Cymreig sy'n berffaith i'w gweini ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi.

Gallwch ddefnyddio un neu fwy o gawsiau Cymreig a bydd y blas gorffenedig yn dibynnu ar flas y caws a ddefnyddir. Beth am drio caws Perl las neu gyfuniad o cheddar a Green Thunder gan Caws Eryri am flas gwahanol!

**Cynhwysion**

* 700g cennin wedi'u trimio a'u golchi
* 1 winwnsyn
* 225g/9 owns caws Cymreig fel Llanboidy, Cadog neu Caws Eryri
* 50g/ 2 owns menyn
* 2 lwy fwrdd blawd plaen
* 1.4 litr/ 21/2 peint stoc twrci neu ffowlyn/cyw iâr
* 142ml/1/4 peint hufen dwbl Cymreig
* 10ml/2 lond llwy de wastad o fwstard gronynnog Cymreig
* Halen a phupur du wedi'i falu

**Dull**

Torrwch y cennin yn fras a'r winwns yn fân. Torrwch y caws yn giwbiau mân. Toddwch y menyn mewn sosban fawr ac ychwanegu'r winwns, coginiwch am 5 munud neu nes yn feddal.

Rhowch y cennin i mewn a'u coginio am 15 munud gan eu troi o dro i dro. Ychwanegwch y blawd a'i gymysgu nes ei fod yn llyfn ac yna ychwanegwch y stoc. Codwch yn ôl i'r berw a'i fudferwi am 15 munud. Trowch y gwres i lawr nes bydd y cawl yn byrlymu'n dawel yna trowch yr hufen a'r mwstard i mewn iddo. Ychwanegwch y caws, ychydig ar y tro, gan adael iddo doddi cyn ychwanegu rhagor.

Profwch, ac ychwanegwch halen a phupur os bydd angen cyn ei weini mewn powlenni cawl cynnes. Rhowch dipyn o croutons ffwrn ar ben pob un.

Mae Ymgynghoriaeth Bwyd Howel yn gwmni sy'n helpu marchnata bwyd a diod o Gymru gan ddatblygu ryseitiau, bwydlenni, ffotograffiaeth bwyd a hyfforddi. Am ragor o wybodaeth ewch i www.howelfood.co.uk

# YSGOL GLANTAF

Llongyfarchiadau i Rhys Patchell a Jac Hopkins o Ysgol Glantaf am eu llwyddiant fel aelodau o dîm rygbi rhanbarthol y Gleision dan 18.

Bu'r rhanbarth yn profi llwyddiant ysgubol eleni trwy ddod yn bencampwyr yng nghystadleuaeth genedlaethol Undeb Rygbi Cymru dan 18.

Chwaraewyd y Rownd Derfynol ar gae St. Helen ar y nawfed o fis Ionawr, lle llwyddodd y Gleision i drechu tîm y Sgarlets gan 51 - 25.

# YSGOL Y BERLLAN DEG

Gwasanaethau Nadolig Bu'r holl ddosbarthiadau yn brysur tu hwnt ym mis Rhagfyr yn paratoi ar gyfer eu gwasanaethau Nadolig. Stori'r geni cafwyd gan y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn. Cafwyd sioe liwgar iawn gan Flwyddyn 1 a 2 'Cerdyn Nadolig' oedd yn adrodd hanes Jac y Postmon yn methu deall pam fod cymaint i'w ddosbarthu cyn y Nadolig ac yna mae'n canfod ei hun ym Methlehem.

Casglwyd cyfanswm anrhydeddus o £407.40 at yr elusen Clic Sergent.

Llongyfarchiadau mawr i Erin Mansfield Bl 6, Caitlin Jones Bl 5 ac i Elen Jones Bl 4 am ddod yn gyntaf yng nghystadleuaeth triawd gymnasteg yr Urdd yng Nghaerdydd. Pob lwc yn y rownd nesaf yn Abertawe.

Yn ddiweddar, trefnwyd gemau rygbi a phêl rwyd rhwng Ysgol y Berllan Deg a Mynydd Bychan. Enillodd y tîm rygbi o 54 i 0, a churodd Mynydd Bychan o 4 i 2 gyda'r bêl rwyd.

# YSGOL PENCAE

**Staff**

Croesawn Ms De Pol yn gynnes yn ôl i Bencae. Dychwela dwy fyfyrwraig o'r Athrofa, sef Miss Lowri Hughes i'r Dosbarth Derbyn a Miss Carys Davies sy'n parhau â'i phrofiad dysgu ym Mlwyddyn 4. Hefyd, croesawn yn gynnes Markel Larruskain, myfyriwr o Wlad y Basg. Mae e'n canolbwyntio ar ddwyieithrwydd a hyderwn y bydd yn cyfoethogi profiadau disgyblion

**Tidy!**

Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 y cyfle i fod yn rhan o brosiect Tidy. Daeth artist, bardd a cherddor i'r ysgol er mwyn datblygu eu sgiliau perfformio.

Cyfansoddon nhw gân o'r enw'r Blaned Blastig ynghyd â chreu gwaith celf er mwyn cyd-fynd â'r thema ailgylchu. Uchafbwynt y prosiect oedd perfformio ar lwyfan Neuadd Dewi Sant.

**Côr yr Ysgol**

Diolch i aelodau'r côr a fu'n ddiwyd yn ystod tymor y Nadolig.

Cystadlon nhw yng nghystadleuaeth Gorawl yn Ysgol Howells, cymryd rhan yng nghyngerdd Nadoligaidd er budd Sefydliad Aren Cymru, a chanon nhw hefyd yng ngêm y Gleision ar y dydd Sul cyn y Nadolig.

# Calendr y Dinesydd

**Mawrth, 1 Chwefror**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. Cwis a chyrri yng nghwmni Hywel Jones a Huw Roberts, am 7.30pm.

**Mercher, 2 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Cyfarfod dan ofal y Parch. Menna Brown, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Iau, 3 Chwefror**
Cymdeithas Cymru-Ariannin, Cangen y De: 'Golwg ar y Wladfa o Awstralia, 1860–1920.' Sgwrs gan Dr Bill Jones, yn Ystafell Edwin, Capel Salem, Treganna, am 7.30pm.

**Gwener, 4 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd. 'Y Cynulliad Cenedlaethol – Y Cam Nesaf?' Cyflwyniad a thrafodaeth dan arweiniad Betsan Powys. Yn Salem, Treganna, am 7.30pm.

**Llun, 7 Chwefror**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Siaradwr: Geraint Hampson-Jones. Manylion pellach: Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Llun, 7 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Sgwrs ar Optometreg gan Sara Ward (Optegwyr Radur). Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 8 Chwefror**
Merched y Wawr Caerdydd. 'Gwenynen Gwent a'r Gân Werin.' Sgwrs gan Allan James, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Mawrth, 8 Chwefror**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. Noson gerddorol yng nghwmni Aled Hall, am 7.30pm.

**Sadwrn, 12 Chwefror**
Cynhelir Degfed Gynhadledd Flynyddol Canolfan Uwchefrydiau Cymry America ddydd Sadwrn, 12 Chwefror 2011, rhwng 10.15am a 3.45pm. Thema'r gynhadledd: 'Cymry ar Daith ar Gyfandiroedd America'. Siaradwyr: Dylan Iorwerth, E. Wyn James, Bill Jones, Diana Luft, Catrin Stevens. Lleoliad: Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd. Manylion pellach: Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd (029-2087-4843; ebost: cymraeg@caerdydd.ac.uk; gwefan: www.caerdydd.ac.uk/cymraeg/).

**Llun, 14 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson gerddorol yng nghwmni disgyblion Ysgol Glantaf, yng nghapel Bethany am 7.30pm.

**Llun, 14 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen y Bont-faen. 'Baner Sir Benfro.' Sgwrs gan Gwenno Dafydd, yn Neuadd y Groes-goch, Y Bont-faen, am 7.30pm.

**Mawrth, 15 Chwefror**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. Noson yng nghwmni'r Prifardd T. James Jones, Archdderwydd Cymru, am 7.30pm.

**Mercher, 16 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Mam a Mab.' Sgwrs gan y Parch. Ddr R. Alun Evans, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Gwener, 18 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro Derec Llwyd Morgan ar yr y testun 'Tyred i'n Gwaredu: Ymbiliad John Roberts Llanfwrog', yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd yr Academi.

**Sadwrn, 19 Chwefror**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Lynne Davies ar 'Y Gymraeg yng Ngwent' am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

**Mercher, 2 Mawrth**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Cinio Gŵyl Ddewi am 1.00pm yn festri Capel Minny Street. Gŵr gwadd: Parch. Owain Llyr Evans.

**Mercher, 2 Mawrth**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. Cinio Gŵyl Ddewi. Gŵr gwadd: Rhodri J. Williams.

**Sadwrn, 5 Mawrth**
Cymdeithas Carnhuanawc: Ysgol Fore yn Chapter, yn dechrau am 9.45am. Siaradwyr: Dr Simon Brooks, Dr Gethin Matthews a Dr Dylan Foster Evans. Am fanylion pellach, cysylltwch â Catherine Jobbins (029-2062-3275) neu Nans Couch (029-1075-3625).

**Llun, 7 Mawrth**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Manylion pellach: Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mawrth, 8 Mawrth**
Darlith Goffa Islwyn (dan nawdd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd). Darlith gan yr Athro D. Densil Morgan: 'Llenor Nyth y Dryw: Edward Matthews, Ewenni (1813–92).' Yn Ystafell 0.36, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 8 Mawrth**
Merched y Wawr Caerdydd. Pryd o fwyd i ddathlu Gŵyl Ddewi, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Mawrth, 8 Mawrth**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd. Noson yng nghwmni Dr John Davies (Bwlch-llan), am 7.30pm.

**Mercher, 9 Mawrth**
Merched y Wawr Bro Radur. 'Rhwng y Llinellau.' Sgwrs gan yr Archdderwydd, T. James Jones, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm. Fe'i noddir gan yr Academi.

**Iau, 10 Mawrth**
Cymdeithas Cymru-Ariannin, Cangen y De: Sgwrs gan Mari Emlyn am ei chyfrolau o lythyrau'r Wladfa, yn Ystafell Edwin, Capel Salem, Treganna, am 7.30pm.

**Iau, 10 Mawrth**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Myfyrdod y Grawys (1): Y Tad', dan arweiniad y Parch. Lona Roberts. Yng nghapel y Crwys, am 7.30pm.

**Gwener, 11 Mawrth**
Cymrodorion Caerdydd. 'Bendithion Dyddiadura.' Sgwrs gan Hafina Clwyd, yn festri Capel Minny Street am 7.30pm. Cydnabyddir nawdd yr Academi.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; ebost: *JamesEW@caerdydd.ac.uk*).

 ISSN 1362-7546

## COED Y GOF - 'Croesawu Ymwelwyr o Ewrop'



Ers mis Medi bellach rydym fel ysgol wedi bod yn ceisio sefydlu prosiect 'Comeniws' gyda Gwyndaf Jones yn cydlynu'r fenter yn frwdfrydig. Cynllun yw Comeniws i greu partneriaethau rhwng ysgolion cynradd o fewn Ewrop trwy gyfres o ymweliadau â rhaglen o weithgareddau cytunedig. Mae ymglymiad â'r prosiect yn fodd i ni hybu ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth byd eang ynghyd â meithrin parch tuag at genhedloedd Ewrop, eu diwylliant a'u traddodiadau.

Dangosodd nifer o ysgolion Ewropeaidd ddiddordeb yn y cynllun ac yn gynnar ym mis Rhagfyr cawsom yr ymweliad cyntaf gan 11 o athrawon. Cafwyd cynrychiolwyr o wledydd Sbaen, Ffrainc, yr Almaen, Gweriniaeth Tsiec, Hwngari, Rwmania a Gwlad Pwyl. Trefnwyd rhaglen ddifyr ar eu cyfer gydag ymweliad â'r ysgol yn ganolbwynt i'r cwbl. Cafwyd croeso mawr iddynt yn ein gwasanaeth boreol ble cafwyd cyfle i drafod eu gwledydd gyda'r plant ynghyd â chyflwyno rhoddion oedd yn adlewyrchu eu traddodiadau a'u diwylliant.

Roedd digon o adloniant wedi ei drefnu iddynt ar gyfer gweddill eu hymweliad gan gynnwys cwrdd â'r Faeres yn Neuadd y Ddinas, Gŵyl y Goeden yn Sain Ffagan, pryd o fwyd blasus yn y King's Arms, Pentyrch a thaith o gwmpas Castell Caerdydd ar fore Sadwrn.

Cafodd yr ymwelwyr Ewropeaidd gyfnod hwylus iawn yng Nghaerdydd, gyda phob un yn datgan pa mor llwyddiannus a buddiol fu'r ymweliad. Edrychwn ymlaen yn fawr nawr at gam nesaf y prosiect gan obeithio yn fuan y caiff cynrychiolwyr o Goed y Gof deithio draw i Ewrop er mwyn rhannu arfer dda a datblygu'r cysylltiadau ymhellach.

## YSGOL PLASMAWR

Ar ddydd Mercher y 17eg o Dachwedd aethom ni - rhai o aelodau Cynghorwyr Cam Cyntaf Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 9 sy'n helpu gyda bwlio, i ganol dinas Caerdydd, i'r 'Inspire Awards', seremoni gwobrwyo 'Cardiff Against Bullying'. Roeddem yna i gynrychioli ein hysgol yng ngwobrau Gwrth-Fwlian 2010. Yn ogystal ag ennill y wobr platinwm am gynlluniau gwrth-fwlian yr ysgol, cawsom sesiynau ar fwlio, a sut mae helpu ein cyd - ddisgyblion. Roedd llawer i ddysgu am wahanol agweddau ein swydd bwysig, ac roeddem yn ei werthfawrogi lot! Cawsom brofiad arbennig o gwrdd â'r dyfarnwr rygbi enwog, Nigel Owens! Diwrnod i'w gofio! Diolch i Miss Rhian Thomas a Mrs Siriol Burford am ddiwrnod arbennig!

*Lauren Moore a Grace Bowen*
*Blwyddyn 9*

## YSGOL Y WERN

Mae Ysgol y Wern yn falch iawn o gyhoeddi ein bod wedi ennill statws "Ysgol Fasnach Deg". Erbyn hyn mae ethos a phwysigrwydd Masnach Deg yn ymdreiddio drwy'r cwricwlwm ac i'w weld yn glir o amgylch yr ysgol. Diolchwn i'r disgyblion, athrawon a rhieni am eu gwaith caled a'u hymroddiad a wnaeth arwain lan at yr anrhydedd yma. Llongyfarchiadau i'r ysgol hefyd am ennill Marc Safon TGCh gan y Sir. Cydnabyddir yr ysgol am y defnydd effeithiol o TGCh ym mywyd yr ysgol. Ymfalchïwn wrth ennill y ddwy wobr yma.

*Llun tudalen 4*

## YSGOL MELIN GRUFFYDD

Dymuniadau gorau i Miss Lowri Morris sydd wedi gorffen gweithio ym Melin Gruffydd. Diolchwn iddi am ei gwaith fel cynorthwywraig ym Mlynyddoedd 3 a 4.

Cymerodd Blwyddyn 3 i gyd ran yn "Sialens Mathemategol y 4 Gwlad", yn cystadlu yn erbyn plant o Gymru, Lloegr, Iwerddon a'r Alban. Cawsant lawer o hwyl yn ateb y cwestiynau a llongyfarchiadau mawr iddynt am ddod yn 8fed trwy Gymru (56ain trwy Brydain). A chlod arbennig i Rhodri Williams ddaeth yn 6ed allan o blant Cymru gyfan.



*Rhodri Williams yn derbyn ei dystysgrif*